Theatr Clwyd

# Dysgu Cerddoriaeth

Gwersi Offerynnau 5 i 19 oed



theatrclwyd.com/music



# Pam dysgu offeryn

Gall dysgu offeryn wneud byd o wahaniaeth i ddatblygiad plentyn ac i fywyd person - o feithrin hyder a gwella'r cof i greu grwpiau cymdeithasol a gwneud ffrindiau.

Mae manteision chwarae cerddoriaeth yn cynnwys llai o straen, mwy o amynedd, disgyblaeth a sgiliau rheoli amser, gan ysgogi creadigrwydd, gwaith tîm ac arweinyddiaeth. Yn fwy na dim, mae chwarae offeryn yn weithred actif ac yn hwyl.

Rydym yn cynnig ystod o brofiadau dysgu - o wersi grŵp i sesiynau un i un – chi sydd i ddewis. Rydym yn creu amgylchedd cynnes a chefnogol i feithrin a dysgu sgiliau ynddo.

---

## Argaeledd cyfyngedig

Mae gennym nifer cyfyngedig o lefydd ar gyfer dysgu chwarae offerynnau yn Sir y Fflint - i wneud yn siŵr nad ydych yn colli'r cyfle, cofrestrwch ar ein gwefan yn **theatrclwyd.com/music**.

Bydd llefydd yn cael eu neilltuo ar sail y cyntaf i'r felin gyda gostyngiadau cynnar ar gael i'r rhai sy'n cofrestru cyn 1af Awst.


# Cwestiynau Cyffredin

Rydyn ni'n gwybod y bydd gennych chi lawer o gwestiynau - dyma rai sy'n cael eu holi'n rheolaidd i'ch helpu chi ar eich taith.



### Pam dysgu gyda Theatr Clwyd?

Mae gennym ni ddull cyfannol o ddysgu, gan addysgu sgiliau cerddorol yn ogystal â sgiliau offerynnol, gan greu cerddorion gwell, mwy cyflawn. Mae ein ensembles a'n grwpiau'n berffaith ar gyfer gwneud ffrindiau a datblygu gallu cerddorol.



### Beth yw'r gost?

Mae'r prisiau'n dechrau o ddim ond £4.70 y wers. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant arbenigol, adborth rheolaidd ar gynnydd gan ein tiwtoriaid cerddoriaeth a mynediad i gyfleoedd arbennig yn Theatr Clwyd.



### Oes rhaid i mi brynu offeryn?

Mae gennym ni rai offerynnau ar gael i'w llogi am gost isel (tua £30 y flwyddyn). Ar gyfer offerynnau nad ydym yn eu stocio ar hyn o bryd, gall ein tîm roi cyngor ar eich opsiynau gorau



### Sut mae cofrestru?

Mae cofrestru'n broses gyflym a hawdd - ewch i theatrclwyd.com/music, llenwi'r ffurflen gyda'ch dewisiadau a byddwn ni yn gwneud y gweddill. Os oes gennych chi unrhyw bryderon gallwn eu hateb cyn i chi ddechrau

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau eraill, cysylltwch, rydyn ni bob amser yn barod i sgwrsio dros y ffôn neu ar e-bost. **music@theatrclwyd.com**



## Pa offerynnau?

Rydyn ni'n addysgu amrywiaeth enfawr o offerynnau - o ddechreuwyr i lefel uwch!

**Chwyth** | Baswn, Clarinet, Obo, Sacsoffon, Ffliwt

**Pres** | Trwmped, Corned, Trombôn, Tiwba, Corn Ffrengig, Corn Bariton, Corn Tenor

**Taro** | Drymiau, Offerynnau Taro Cerddorfaol

**Llinynnol** | Ffidil, Fiola, Soddgrwth, Bas Dwbl, Gitar (ar draws ystod o arddulliau), Telyn, Bas Trydan

**Allweddellau a Lleisiol** | Canu, Theatr Gerddorol, Piano, Allweddellau

## Cysylltwch â ni

Dim ond e-bost neu alwad ffôn i ffwrdd ydyn ni.

Byddem wrth ein bodd yn cael sgwrs am sut gallwn ni eich helpu chi neu eich plentyn i ddechrau, neu barhau, ar eich siwrnai gerddorol.

E-bostiwch ni ar **music@theatrclwyd.com** neu ffoniwch ein swyddfa docynnau ar 01352 344101.

Cyngor Sir y Fflint Flintshire County Council
Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government
Cymru Wales
Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales